



27th March 2020

Llythyr i'r Awdurdodau Lleol

Annwyl bawb,

Dyma gyfnod na welwyd ei debyg erioed o'r blaen. Wrth i ni gyrraedd diwedd yr wythnos gyntaf o'r cyfnod eithriadol yma, hoffwn ddiolch i chi i gyd.

Mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau gofal plant wedi gwneud cyfraniad hanfodol i'r ymdrech ehangach sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i Covid-19. Byddant yn parhau i wneud hynny – gan estyn cymorth i'n gweithwyr hanfodol a chefnogi'r rhai bregus yn ein plith, a bwydo'r plant hynny sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim.

Rydych wedi ymateb i'r her mewn modd rhagorol gan osod systemau ymarferol ar waith yn lleol. Mae hyn wedi golygu cryn ymdrech gan lawer o bobl, ond mae hefyd wedi dangos yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli wrth sefydlu systemau ar lefel leol. Ar y cyd â'm huwch-dîm, rwy'n siarad yn rheolaidd â chi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r undebau llafur, a'n hymrwymiad ni i gyd i gydweithio fydd yn ein helpu yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Mae angen i ni barhau i gynnig y ddarpariaeth sydd ar gael i weithwyr hanfodol a'r plant mwyaf anghenus dros gyfnod y Pasg. Yn amlwg, bydd angen i ni fanteisio ar eich cymorth chi a'ch ysgolion er mwyn cyflawni hynny, ac rydym yn chwilio am ddulliau lleol hyblyg i barhau i ofalu am y rhai mwyaf anghenus.

Gwn fod y rhan fwyaf ohonoch yn cynllunio eisoes, gyda modelau hyblyg yn cael eu datblygu i ddarparu systemau lleol i ateb yr her o gynnal y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth bresennol drwy gydol cyfnod y Pasg.

Rydym yn cydnabod bod angen datblygu'r gwaith ymhellach a bod angen ein cefnogaeth arnoch. Rydym am gydweithio gydag Awdurdodau Lleol, undebau llafur a phenaethiaid i sicrhau bod gennym drefn gadarn, addas at y diben sydd wedi'i chytuno gan bawb.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus iawn i gefnogi llwyddiannau sylweddol yr Awdurdodau Lleol o ran sicrhau ymrwymiad athrawon ac aelodau eraill o staff dros gyfnod y Pasg.

I'r perwyl hwn, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad i'r wasg a fideo ddydd Sadwrn, lle y bydd yn diolch i'r proffesiwn a phawb sy'n gweithio yn ein hysgolion, gan gynnwys cynorthwyyr, athrawon cyflenwi ac eraill megis staff arlwy, am gadw ysgolion ar agor i helpu'r gweithwyr hanfodol i achub bywydau yn ystod y cyfnod yma.

Yn ogystal â diolch i'r proffesiwn, fe fydd hi hefyd yn galw arnynt i helpu i gynnal y ddarpariaeth dros gyfnod y Pasg. Elfen allweddol o hyn fydd annog rhagor o ymrwymiad i gefnogi eich gwaith presennol o ran darpariaeth dros y Pasg a sicrhau bod y cynnig ar gael ledled Cymru.

Bydd y Gweinidog am roi arweiniad i'r aelodau hynny o'r proffesiwn sy'n dymuno helpu gyda'r ddarpariaeth dros y Pasg. I'r perwyl hwn fe fydd hi'n gofyn i'r athrawon a'r staff cymorth sy'n barod i wirfoddoli, a chefnogi'r wlad ar adeg pan fo dirfawr eu hangen, i gysylltu â'u penaethiaid.

Y penaethiaid hynny fydd yn penderfynu sut i ddefnyddio'r adnodd yma yn y ffordd fwyaf effeithiol yn eich ardal chi.

A fyddech cystal â hysbysu'r penaethiaid am alwad y Gweinidog am gymorth. Os yw eich Awdurdod Lleol yn defnyddio'r model Ysgolion Ardal fel rhan o'ch ymateb, efallai y byddwch hefyd am gadarnhau'r systemau ar gyfer casglu gwybodaeth am staff sy'n cynnig cymorth mewn ysgolion yn ystod cyfnod y Pasg. Byddwn yn gweithio gyda chi a'r undebau i ddatblygu canllawiau a fydd yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yma'n effeithiol ac yn ddiogel i blant.

Rydym i gyd yn cydnabod mor anferth yw'r her sy'n ein hwynebu, ac mai chi, ein Awdurdodau Lleol yn gweithio'n strategol gyda penaethiaid a'u cymunedau sy'n deall orau sut i gefnogi'r plant sydd fwyaf mewn angen.

Yours sincerely,



Steve Davies
Director, Education Directorate